# Pennaeth Cynorthwyol

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n chwilio am unigolyn brwd ac egnïol i ymuno ag uwch dîm rheoli Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor fel Pennaeth Cynorthwyol.

Dyma gyfle prin i ymuno ar lefel strategol ag un o sefydliadau addysg bellach mwyaf Prydain. Mae Grŵp Llandrillo Menai'n sefydliad a chanddo drosiant blynyddol o dros £90M. Mae'n cyflogi dros 1500 aelod o staff ac yn gyfrifol am gynnig darpariaeth addysgol i dros 21,000 unigolyn mewn meysydd sy'n cynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau ac addysg oedolion.

Prif gyfrifoldeb deiliad y swydd fydd goruchwylio a rheoli Rheolwyr y Meysydd Rhaglen sy'n arwain y ddarpariaeth addysgol a gynigir mewn amrywiol bynciau academaidd a galwedigaethol. Bydd hefyd yn gyfrifol am safle (safleoedd) ar draws Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor ac yn cael cyfle i gyfrannu'n strategol i ddatblygiad campysau'r ddau goleg.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn uniongyrchol atebol i Bennaeth y Coleg ac fel aelod o Dîm Strategol Grŵp Llandrillo Menai bydd yn gyfrifol hefyd am: gynllunio'r cwricwlwm; cynllunio a rheoli cyllidebau sylweddol; ymateb i gyfleoedd economaidd ac am gydweithio â chyflogwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn diwallu anghenion yr ardal.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn greiddiol i'r gwaith o sicrhau bod datblygiadau cyfalaf cyffrous gwerth £30M yn cael eu cyflawni – campws newydd i Goleg Menai ym Mangor a datblygu a moderneiddio campysau Coleg Meirion-Dwyfor ym Mhwllheli a Dolgellau.

Cenhadaeth Grŵp Llandrillo Menai a'i golegau yw Gwella Dyfodol Pobl ac rydym wedi ymrwymo i fod yn ddarparwr Addysg Bellach blaenllaw yng Nghymru a thu hwnt.

**https://www.gllm.ac.uk/cy/strategic-plan**

**Os ydych am fod yn rhan o'r tîm ac ymuno â ni ar ein taith gyffrous, ewch ati heddiw i gyflwyno eich cais.**

**Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni am sgwrs anffurfiol am y swydd a'i chyfrifoldebau a byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r Pennaeth, Coleg Menai/Coleg Meirion Dwyfor.**

**Cynhelir y cyfweliadau am y swydd ar 14 Ebrill 2023**







Grŵp
Llandrillo
Menai

# Assistant Principal

Grŵp Llandrillo Menai is looking for an enthusiastic and energetic individual to join the Coleg Menai and Coleg Meirion Dwyfor senior management team as an Assistant Principal.

Here is a rare opportunity to join on a strategic level one of Britain's biggest further education institutions. Grŵp Llandrillo Menai is an institution with an annual turnover of over £90M and employs over 1500 members of staff and is responsible for offering educational provision to over 21,000 individuals across a range of provisions including further education; higher education; apprenticeships and adult education.

The post holder will be mainly responsible for supervising and managing Programme Area Managers who lead on curricular provision in various occupational and academic fields. There will also be responsibility for a site (sites) across Coleg Menai and Coleg Meirion Dwyfor with an opportunity and expectation to contribute strategically to the development of the campuses of both colleges.

Directly answerable to the College Principal and as a member of Grŵp Llandrillo Menai Strategic Team, the successful applicant will also be responsible for:- planning the curriculum; planning and managing considerable budgets; responding to economic opportunities and working jointly with employers and stakeholders to ensure that the educational provision meets the needs of the region.

The successful applicant will play a key role in realising exciting capital developments worth £30M - a new campus for Coleg Menai, Bangor and developing and modernising campuses in Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli and Dolgellau.

The mission of Grŵp Llandrillo Menai and its colleges is improving the Future of People and we have committed to be a leading Further Education provider in Wales and beyond.

**https://www.gllm.ac.uk/strategic-plan**

**Make an application today to join our team and play your part in this exciting journey.**

**Please do not hesitate to contact us for an informal chat about the post and its responsibilities and we'll put you in contact with the Principal, Coleg Menai/Coleg Meirion Dwyfor.**

**Interviews for the post will be held 14 April 2023**





